



WYTHNOS CYMRU CŴL



WYTHNOS GWEITHGAREDDAU 2015!

Byddwn yn dathlu **Wythnos Cymru Cŵl** yn Ysgol Abererch ar Fawrth 23-27. Fe gynhaliom yr wythnos hon y llynedd ac roedd y plant wedi mwynhau'r gweithgareddau cymaint fel yr oeddynt yn awyddus i ni drefnu rhywbeth tebyg eto eleni. Pwrpas yr wythnos yw annog y disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a hyrwyddo gwaith Siarter Iaith Gwynedd. Rydym wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau hwyliog yn ystod yr wythnos fydd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am draddodiadau a diwylliant Cymru!

DYDD MERCHER EISTEDDFOD FFUG

Diwrnod o gystadlu gwirion! Y gwirionaf fydd yn ennill pwyntiau i'w tŷ! Mae'r plant yn cael eu rhannu yn 3 tŷ- Penychain, Afonwen a Glandon. Rhestr testunnau ar daflen arall!




Byddwn yn coginio bwydydd traddodiadol Cymreig fel cacennau cri.



DYDD MAWRTH

Byddwn yn croesaw'r bocsiwr-bît Ed Holden yn ôl i Ysgol Abererch i rapio gyda'r disgyblion.



Dydd Iau, Mawrth 26

BLWYDDYN DERBYN AC 1

Bydd disgyblion bl derbyn ac 1 yn cael mynd i Nant Gwrtheyrn i fwynhau gwaith celf a dysgu am chwedl Rhys a Meinir.



Bydd gweithgareddau'r dosbarthiadau i gyd yn canolbwyntio ar straeon, llên gwerin a diwylliant Cymreig!



**ARDDANGOSFA O WAITH LLAW
A CHYNNYRCH YR EISTEDDFOD
YSGOL A**

CELF YR URDD

NOS LUN, MAWRTH 23

**3:00 - 4:00PM YN NEUADD YR
YSGOL**



Dydd Iau, Mawrth 26

Blwyddyn 2-6

GWIBDAITH CHWEDLAU ROWND PEN LLŶN

Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am rai o chwedlau a hanesion enwocaf Pen Llŷn. Byddwn yn cychwyn o'r ysgol am 9:00am ac mynd mewn bws gan oedi mewn ambell le i glywed chwedl.

Cychwyn yn Abererch

Castellmarch- gweld plasty y Brenin March

Ysgol Sarn Bach - cael cyflwyniad o'r stori Clustiau'r Brenin March

Trwy Mynytho - Clywed am Bwgan Pant y Wrenol

Aberdaron- Porth y Swnt - hanes chwedlau lleol

Ysgol Crud y Werin- cyflwyniad o'r chwedl Huw Andro

Trwy Tudweiliog - chwedl y gwas fferm eisiau mynd i Awstralia

Nant Gwrtheyrn- Stori Rhys a Meinir

